Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# Ymateb i adroddiad ymchwil Prifysgol Caeredin: Gwerthuso'r ddarpariaeth addysg i blant a phobl ifanc a addysgir y tu allan i'r ysgol

© Hawlfraint y Goron Hydref 2013
WG20255

**Ymateb i adroddiad ymchwil Prifysgol Caeredin*: Gwerthuso'r ddarpariaeth addysg i blant a phobl ifanc a addysgir y tu allan i'r ysgo***

**Argymhellion i Lywodraeth Cymru**

| |
|---|
| **Recommendation 1:** Welsh Government should continue to recognise and address the negative impact of exclusion from school on individual lives and on communities in Wales. |

**Ymateb: Derbyn.**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr effaith negyddol y maegwaharddiadau o'r ysgol yn ei chael ar fywydau unigolion ac ar gymunedau yng Nghymru. Ym mlwyddyn ariannol 2014-15, byddwn yn diweddaru ac yn ailgyhoeddi ein canllawiau *Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion* erbyn mis Mawrth 2015. Wrth wneud hynny, byddwn yn ystyried y mater hwn ymhellach. Swyddogion Llywodraeth Cymru fydd yn ymgymryd â'r gwaith hwn.

**Goblygiadau ariannol:** Dim goblygiadau ariannol ychwanegol. Bydd y costau sy'n gysylltiedig ag adolygu ac ailgyhoeddi'r canllawiau yn cael eu talu o'r cyllidebau adrannol presennol.

| |
|---|
| **Recommendation 2:** Welsh Government should emphasise the use of exclusion from school as a sanction of last resort and, in the longer term, move away from the use of exclusion as a disciplinary sanction. |

**Ymateb: Derbyn yn rhannol.**

Cynhyrchodd Llywodraeth Cymru ganllawiau ar Wahardd o Ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion yn 2012. Mae'r canllawiau hyn yn ymdrin â gwahardd disgyblion o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion; y gweithdrefnau ar gyfer apelio yn erbyn gwaharddiad a'r camau i'w cymryd i barhau i addysgu'r dysgwyr hynny sydd wedi cael eu gwahardd. Mae'r canllawiau yn ei gwneud yn eglur mai dewis pan fetha popeth arall yw gwahardd o'r ysgol.

O dan adran 52(4) o Ddeddf Addysg 2002, mae'n rhaid i benaethiaid, athrawon sydd â chyfrifoldeb am Uned Gyfeirio Disgyblion, cyrff llywodraethu, Awdurdodau Lleol a phaneli apêl annibynnol, yn ôl y gyfraith, ystyried y canllawiau hyn wrth ddod i benderfyniad ynghylch gwahardd, ac wrth weinyddu'r gweithdrefnau a'r apeliadau cysylltiedig.

Bydd Llywodraeth Cymru yn ail-bwysleisio bod yna amryw o 'becynnau cymorth' ar gael eisoes i staff sy'n delio â materion disgyblu yn niweddariad y canllawiau sydd wedi'u diweddaru, *Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion,* yn ystod blwyddyn ariannol 2014-15. Bydd y canllawiau a ddiweddarwyd yn cynnwys enghreifftiau o arfer da fel dewisiadau eraill i wahardd. Bydd

swyddogion Llywodraeth Cymru yn parhau i graffu ar y data sydd ar gael, gyda'r nod o ddod o hyd i unrhyw anghysondebau yn y ffordd y mae ysgolion ac awdurdodau lleol yn gweithredu eu polisïau ar waharddiadau a symudiadau wedi'u rheoli, a herio unrhyw anghysondebau o'r fath.

**Goblygiadau ariannol:** Dim goblygiadau ariannol ychwanegol.

**Recommendation 3:** Consideration should be given to the development of a national strategy to support staff training, communication and development in positive behaviour management, children's rights and wellbeing.

**Ymateb: Gwrthod**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno proses Ymarfer, Adolygu a Datblygu i sicrhau bod gan ymarferwyr sy'n cael datblygiad proffesiynol parhaus y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol. Byddwn yn parhau i ddatblygu amrywiaeth o adnoddau sy'n cefnogi datblygiad proffesiynol ymarferwyr. Mae hyn yn cynnwys datblygu pecynnau adnoddau dysgu sy'n rhoi i ymarferwyr Adnoddau Lefel Meistr ac amrywiaeth o adnoddau o ansawdd uchel ar wefan Dysgu Cymru.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim.

**Recommendation 4:** The research supports the Welsh Government proposal that local authorities or consortia should designate specialist staff to assist the reintegration and support of excluded pupils.

**Ymateb: Derbyn.**

Mae canllawiau *Gwahardd o Ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion* Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2012, yn awgrymu 'dylai awdurdodau lleol ystyried enwebu staff arbenigol i helpu gyda'r gwaith o ailintegreiddio dysgwyr sydd wedi'u gwahardd a chynnig cymorth iddyn nhw' yn Adran 6.1.2.

At hynny, mae'r swyddogion yn ymgysylltu ag awdurdodau lleol a chonsortia i gael mwy o wybodaeth eto am eu harferion ailintegreiddio. Mae'r swyddogion hefyd yn ystyried sut y dylai'r consortia arwain y ffordd i helpu gydag ailintegreiddio.

Ar 7 Hydref, cyhoeddwyd datganiad ysgrifenedig a oedd yn amlinellu'r penderfyniad i dderbyn cynnig diwygiedig gan lywodraeth leol i ddiogelu'r cyllid ar gyfer gwella ysgolion sy'n rhan o setliad cyllidebol llywodraeth leol, ac i ddatblygu ar y cyd Fodel Cenedlaethol ar gyfer Gwella Ysgolion.

Mae model cenedlaethol cychwynnol ar gyfer gweithio rhanbarthol wedi cael ei ddrafftio ac rydym wedi ymrwymo i ddatblygu'r model hwn ymhellach gydag awdurdodau lleol, penaethiaid ac arbenigwyr ar wella ysgolion.

**Goblygiadau ariannol:** Dim costau ychwanegol.

**Recommendation 5:** An information leaflet on exclusion and pupils' rights in the exclusion process should be available to all children in all schools.

**Ymateb: Derbyn.**

Dyma gyfle a groesawir i sicrhau gwell cysondeb a dealltwriaeth ymhlith rhieni a disgyblion. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r wybodaeth hon yn electronig i awdurdodau lleol i'w dosbarthu'n ehangach i rieni a disgyblion cyn diwedd 2014. Byddwn hefyd yn darparu rhai copïau papur, i'w dosbarthu i enwau cyswllt y partneriaethau rhieni a rhanddeiliaid allweddol eraill sy'n darparu cymorth a chyfarwyddyd.

Mae'n bosibl y bydd ysgolion am gynhyrchu copïau papur ychwanegol a rhoi'r ddogfen hon ar eu gwefannau.

**Goblygiadau Ariannol:** Y goblygiadau ariannol lleiaf posibl, tua £1000 - £1500.

**Recommendation 6:** A good practice guide on strategies to support children and young people at risk of exclusion from school should be developed.

**Ymateb: Gwrthod.**

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhyddhau'r Llawlyfrau ar Reoli Ymddygiad ar gyfer Ysgolion Cynradd (2012) ac ar gyfer Ysgolion Uwchradd (2010), a'r Llawlyfr ar gyfer Grwpiau Anogaeth, sy'n adnoddau i wella arferion athrawon o ran rheoli ymddygiad.

Mae'r swyddogion yn ystyried pa ffordd sydd orau i gyhoeddi astudiaethau achos, er enghraifft trwy wefan Dysgu Cymru. Byddant hefyd yn ystyried hyn wrth ddiweddaru canllawiau *Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion* yn ystod blwyddyn ariannol 2014-15. Bydd y swyddogion yn cysylltu ag Estyn i sicrhau bod unrhyw astudiaeth achos a ddarperir yn enghreifftiau o'r arfer gorau oll.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim.

**Recommendation 7:** Welsh Government should support local authorities to address the factors that currently restrict their capacity to meet the statutory requirement to provide education within 15 days of exclusion.

**Ymateb: Derbyn.**
Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i ddeall ymhellach y ffactorau sy'n cyfyngu ar eu gallu i wneud hyn. Fel cam cyntaf, mae'r swyddogion wedi anfon llythyr i awdurdodau lleol yn tynnu eu sylw at y ffaith bod darparu addysg o fewn 15 diwrnod o waharddiad yn ofyniad statudol; ac maen nhw'n gofyn iddynt gadarnhau bod eu hawdurdod yn cyflawni'r ddyletswydd statudol hon. Mae'r swyddogion yn gwahodd awdurdodau lleol i godi unrhyw ffactorau sy'n cyfyngu ar eu gallu i gyflawni'r ddyletswydd hon fel y gellir cynnig cymorth fel sy'n briodol.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim.

**Recommendation 8:** The use of managed moves should be monitored and evaluated.

**Ymateb: Derbyn**
Cyhoeddwyd canllawiau *Defnydd Effeithiol o Symudiadau wedi'u Rheoli: Cychwyn Newydd i Blant a Phobl Ifanc yn yr Ysgol* gan Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2011. Felly, byddai 2015 yn amser priodol i werthuso effeithiolrwydd y canllawiau a'u defnydd cyson ar draws awdurdodau lleol. Bydd adolygiad mewnol o'r canllawiau yn cael ei gynnal gan swyddogion.

Mae swyddogion yn ystyried yr opsiynau ar gyfer casglu data ar symudiadau wedi'u rheoli; gyda'r posibilrwydd y bydd y gwaith paratoi yn cymryd tua 2 flynedd.

---

**Goblygiadau ariannol: Dim costau ychwanegol.**

**Recommendation 9:** Welsh Government should offer clear guidance on the registration and monitoring of progress of pupils not following standard educational programmes in mainstream schools.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor.**

Mae’r canllawiau *Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion* yn nodi 'lle bo disgyblion wedi cofrestru mewn ysgol ac yn mynychu darpariaeth y tu allan i’r ysgol am rywfaint o’r wythnos neu’r wythnos gyfan, dylai ysgolion barhau i fonitro addysg y disgyblion a mynnu adolygiadau rheolaidd ar eu cynnydd'.

Bydd y swyddogion yn cysylltu â rhanddeiliaid am ragor o wybodaeth i helpu i ddiweddaru’r canllawiau *Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion* ym mlwyddyn ariannol 2014-15 fel y bo'n briodol.

Byddai’n ddichonadwy cysylltu’r data Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS) sydd ar hyn o bryd yn cael eu casglu gyda’r data ar gyrhaeddiad, er mwyn dal awdurdodau lleol i gyfrif am gyrhaeddiad y disgyblion hynny nad ydynt ar gofrestr yr ysgol. Bydd y swyddogion yn ystyried a oes modd cyflawni'r gwaith ychwanegol hwn gan ddefnyddio'r adnoddau presennol a sut mae gwneud hynny.

---

**Goblygiadau Ariannol:** Bydd yna oblygiadau o ran yr adnoddau y bydd eu hangen i gysylltu’r data, a fydd yn cael eu cadarnhau wrth fynd i’r afael â’r argymhelliad hwn.

**Recommendation 10:** The activities of pupil discipline committees and independent appeal panels, and their adherence to national guidance on exclusion procedures, should be monitored by Welsh Government.

**Ymateb: Gwrthod**
Bydd yr argymhelliad hwn yn dibynnu ar ganlyniad yr astudiaeth ddichonoldeb sydd wedi'i amlinellu yn Argymhelliad 11 isod. Os mai Llywodraeth Cymru

fydd, yn y pendraw, yn gyfrifol am swyddogaeth y panel apêl, ni fydd yr argymhelliad hwn yn berthnasol.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim goblygiadau ariannol ychwanegol ar hyn o bryd, o ystyried yr astudiaeth ddichonoldeb.

**Recommendation 11:** In the interests of equity and consistency, a National Appeal Panel should be established.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**
Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn cynnal astudiaeth ddichonoldeb i'r posibilrwydd o drosglwyddo swyddogaethau gweinyddol y Paneli Apêl Annibynnol ar Waharddiadau o'r Ysgol a gyflawnir ar hyn o bryd gan awdurdodau lleol, ar gyfer ysgolion a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion, i Gangen Cyfiawnder Gweinyddol yn Llywodraeth Cymru. Y nod yw sicrhau bod apeliadau o ran gwaharddiadau o'r ysgol yn cael eu prosesu a'u clywed mewn ffordd deg, agored, annibynnol a chyson. Y dyddiad cau ar gyfer yr astudiaeth ddichonoldeb yw gwanwyn 2014.

**Goblygiadau ariannol:** Dim goblygiadau ariannol ychwanegol.

**Recommendation 12:** Welsh Government should increase resources to promote effective consortium working at local authority level; to support pupils at risk of exclusion, to develop common processes and procedures for access to EOTAS, to share strategies for reintegration and to explore possibilities for sharing EOTAS provision across authorities.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**
Roedd adroddiad Robert Hill, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin ac a fu'n destun ymgynghoriad cyhoeddus tan 13 Medi, yn cynnwys sawl cynnig mewn perthynas â gweithio fel consortia rhanbarthol weithio 'r model ar gyfer eu hariannu. Mae'r opsiynau sy'n cael eu cynnig yn adroddiad Hill yn cynnwys rhoi set safonol o swyddogaethau craidd i'r consortia, egluro rolau'r awdurdodau lleol a'r consortia rhanbarthol wrth ddarparu gwasanaethau gwella ysgolion a sicrhau bod y strwythur atebolrwydd yn cydnabod eu priod rolau o ran gwella ysgolion. Bydd papur yn cael ei roi i'r Cabinet ym mis Tachwedd ar yr adroddiad cyfan.

Bydd yr argymhelliad hwn yn cael ei ystyried ar yr un pryd ag argymhelliad 12 o *Ymchwiliad i Bresenoldeb ac Ymddygiad* y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc.

**Goblygiadau Ariannol:** Ar hyn o bryd, mae awdurdodau lleol yn cyfrannu ar y cyd at eu consortiwm rhanbarthol. Bydd swyddogion yr Adran Addysg a Sgiliau yn ymgymryd â gwaith cwmpasu pellach ar y cyd â'r consortia ac awdurdodau lleol er mwyn cael gwybod yn union beth fydd y costau gweithredu angenrheidiol i gynnal cyllid uniongyrchol i ddarparu gwasanaethau gwella ysgolion craidd a rennir.

**Recommendation 13:** Individual level statistics should be used to develop and promote a better understanding of the profile of excluded pupils, and those in EOTAS.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor.**

Rydym eisoes yn cyhoeddi data ar waharddiadau o ysgolion http://cymru.gov.uk/topics/statistics/headlines/schools2013/exclusions-schools-2011-12/?lang=cy
Gwyddys mai anghymesur yw'r modd y cynrychiolir bechgyn, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig a phlant sy'n derbyn gofal yn y data ar waharddiadau ac EOTAS.
Rydym yn gweithio gydag awdurdodau lleol i ymchwilio i'r ffactorau hynny sy'n gyfrifol am y cynnydd yng ngwaharddiadau disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig am gyfnod o bum diwrnod neu lai. Y bwriad yw rhannu arfer da a helpu i sicrhau bod sylw yn cael ei dynnu'n gynnar at unrhyw arferion a allai arwain at gynnydd yn nifer y gwaharddiadau ac ystyried sut gellid mynd ati i newid arferion o'r fath. Bydd swyddogion yn parhau i hyrwyddo gwell dealltwriaeth o broffil y disgyblion hyn, gan gynnwys gwella cyfathrebu gydag awdurdodau lleol trwy gyhoeddi datganiadau ystadegol trwy Dysg a'r cylchlythyr cyn-11, ac ymchwilio i sianeli ychwanegol posibl.

**Goblygiadau ariannol:** Dim goblygiadau ariannol ychwanegol.

**Recommendation 14:** Clear national guidance should be developed on the use of isolation and seclusion in mainstream schools and in EOTAS. Unacceptable practices, such as forced isolation, should be specified.

**Ymateb: Gwrthod**

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chanllawiau *Ymyriad Diogel ac Effeithiol - Defnyddio Grym Rhesymol a Chwilio am Arfau (097/2013)* ym mis Mawrth 2013. Mae'r canllawiau hyn yn cynnwys adran ar ddefnyddio ystafelloedd/ardaloedd tawel neu ynysu ac ar yr arfer annerbyniol o ynysu wedi'i orfodi. Mae hefyd yn sôn am daflen wybodaeth Sefydliad Anableddau Dysgu Prydain sy'n esbonio'r gwahaniaeth rhwng 'seibiant' (*'time out'*) a 'neilltuo' (*'seclusion'*) http://www.bild.org.uk/information/factsheets/

Bydd canllawiau yn y dyfodol, megis y canllawiau *Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion*, a fydd yn cael eu diweddaru a'u cyhoeddi erbyn mis Mawrth 2015, yn pwysleisio'r angen am ymyrraeth gynnar a'r angen i feithrin perthnasau cadarnhaol lle bo pawb yn parchu ei gilydd o fewn ysgolion a'r ddarpariaeth EOTAS.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim.

**Recommendation 15:** Welsh Government should continue to encourage local authorities to develop clear aims and purposes for EOTAS provision, particularly pupil referral units, and benchmark frameworks for evaluating outcomes and value for money.

**Ymateb: Derbyn**

Adran 19 o Ddeddf Addysg 1996 yw'r ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n ymwneud â'r ddyletswydd sydd ar awdurdodau lleol i drefnu addysg addas ar gyfer pobl ifanc y tu allan i ysgol brif ffrwd.
Mae canllawiau *Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion* Llywodraeth Cymru yn cynnwys gwybodaeth fanwl am rôl yr awdurdod lleol wrth ddarparu addysg y tu allan i'r ysgol, gan gynnwys rôl yr unedau cyfeirio disgyblion a'u cysylltiadau ag ysgolion prif ffrwd; yr angen i awdurdodau lleol roi systemau yn eu lle i fonitro presenoldeb, ymddygiad a chyrhaeddiad disgyblion a'i hailintegreiddio; a, systemau i gasglu data a gwybodaeth reoli i helpu i fonitro perfformiad. Bydd swyddogion yn ystyried yr argymhelliad hwn wrth adnewyddu'r canllawiau yn 2014/15.
Mae *Gwella Ysgolion* yn cynnwys ymrwymiad y bydd Llywodraeth Cymru yn '*llunio safonau gofynnol a fframwaith meincnodi i bobl ifanc a addysgir y tu allan i'r ysgol erbyn Rhagfyr 2013'*. Roeddem yn aros am ganlyniad ymchwil Prifysgol Caeredin i lywio datblygiad y safonau gofynnol a'r fframwaith meincnodi. Rhagwelwn y bydd hyn cael ei gwblhau yn 2014-15.

**Goblygiadau ariannol:** Dim goblygiadau ariannol ychwanegol.

**Recommendation 16:** Standardised systems for reporting and monitoring local authority costs of EOTAS should be introduced so that comparisons can be made across Wales, between local authorities and increase value for money.

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru yn casglu ffigurau EOTAS a ddefnyddiwyd yn y Setliad Llywodraeth Leol ers 2013-14.
Mae gwybodaeth am gostau yn cael ei chasglu ar ffurf gwariant a ysgwyddir gan awdurdodau lleol. Mae awdurdodau yn cyflwyno eu data Alldro Refeniw yn flynyddol i Lywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael ar hyn o bryd yn perthyn i 2011-12. Bydd data ar gyfer 2012-13 yn cael eu cyhoeddi ym mis Hydref 2013. Mae llinell yn y datganiad hwn ar gyfer gwariant yn gysylltiedig ag "Addysg y tu allan i'r ysgol" sy'n ymwneud ag Anghenion Addysgol Arbennig nad ydynt yn cael eu cynnwys yn y gwariant a ddirprwyir i ysgolion. Mae data manwl yn cael eu casglu ar addysg mewn ysgolion ac mae'r gwariant ar unedau cyfeirio disgyblion hefyd yn cael ei gofnodi ar wahân. Felly, mae'r llinell hon yn cyfeirio ar wariant penodol iawn sy'n gysylltiedig â'r hyn yr ydych yn chwilio amdano. Caiff y data eu darparu fel cyfanswm ar lefel awdurdod ac ni chânt eu dadansoddi fesul math o ysgol.

**Goblygiadau ariannol:** Dim goblygiadau ariannol ychwanegol.

**Recommendation 17:** Advice should be issued on recognised effective strategies for promotion of behaviour management and relationships in EOTAS; such strategies should both support staff and respect pupils' rights.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Nid yw'r Llawlyfrau ar Reoli Ymddygiad yn cyfeirio'n benodol at EOTAS, er bod y strategaethau y maen nhw'n eu hawgrymu yr un mor berthnasol mewn lleoliad EOTAS.
Mae gan y canllawiau *Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion* adran benodol ar EOTAS, ac adran ar wahân ar reoli ymddygiad. Pan fyddwn yn diweddaru'r canllawiau hyn ym mlwyddyn ariannol 2014-15, byddwn yn cyfeirio'n benodol at reoli ymddygiad a pherthnasau mewn EOTAS.

**Goblygiadau ariannol:** Dim goblygiadau ariannol ychwanegol.

**Recommendation 18:** Good practice in EOTAS provision should be identified and promoted and regular meetings of providers should encourage dissemination of good practice. This should include sharing of good examples of curricula which meet current standards, and of effective child-centred behaviour management.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor.**

Mae digwyddiadau, fel cynhadledd flynyddol yr unedau cyfeirio disgyblion, eisoes yn cynnig cyfleoedd i ymarferwyr EOTAS rwydweithio o fewn y sector a rhannu arfer da.

Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru, ynghyd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yn edrych ar ffyrdd y gallent ysgogi datblygiad rhwydweithiau y darparwyr i rannu arfer da.

Mae swyddogion yn edrych ar ffyrdd y gallai darparwyr EOTAS ddefnyddio gwefannau Dysgu Cymru ac Estyn fel cyfrwng i ddangos a lledaenu enghreifftiau o arfer da yn rheolaidd. Bydd swyddogion hefyd yn ystyried cynnwys enghreifftiau o arfer da wrth ddatblygu polisïau yn y dyfodol, megis diweddaru'r canllawiau *Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion* ym mlwyddyn ariannol 2014-15.

**Goblygiadau ariannol:** Dim goblygiadau ychwanegol i'r hyn a nodwyd eisoes.

**Recommendation 19:** Welsh Government should ensure monitoring of appropriate support for girls in EOTAS, where they are often in a minority.

**Ymateb: Derbyn**

Mae hyn yn ymwneud â datblygu dull holistaidd ar gyfer merched mewn EOTAS, gan gynnwys cydraddoldeb, iechyd a diogelwch a deinameg grŵp. Ar hyn o bryd, mae canllawiau *Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion* Llywodraeth Cymru yn nodi 'y dylid adolygu'n rheolaidd gynnydd pob disgybl sy'n cael ei addysgu'r tu allan i'r ysgol ac addasrwydd y ddarpariaeth ar eu cyfer'. Byddwn yn ystyried cynnwys canllawiau ar gyfer dull mwy holistaidd ar gyfer merched pan fyddwn yn diweddaru'r canllawiau *Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion* yn ystod blwyddyn ariannol 2014-15.

**Goblygiadau ariannol:** Dim goblygiadau ariannol ychwanegol.

**Recommendation 20:** Data on reintegration should be gathered and disseminated, along with accounts of effective reintegration strategies developed in some local authorities.

**Ymateb: Derbyn yn rhannol**

Rydym yn derbyn yr argymhelliad i'r graddau y bo'n berthnasol i rannu arfer da o ran strategaethau ailintegreiddio effeithiol. Mae'n canolbwyntio ar y berthynas rhwng yr ysgol a'r uned gyfeirio disgyblion a sut mae cynnal y berthynas honno. Bydd y swyddogion yn ystyried yr argymhelliad hwn fel rhan o adnewyddu'r canllawiau *Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion* yn ystod blwyddyn ariannol 2014-15.

Rydym yn gwrthod yr argymhelliad hwn i'r graddau y bo'n berthnasol i gasglu data, nad yw'r ffordd fwyaf effeithiol o fonitro yn yr achos hwn. Byddwn yn edrych ar ffordd sy'n fwy ansoddol o fonitro ailintegreiddio, trwy gylch gwaith Estyn, o bosibl.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim

**Recommendation 21:** Data on education outcomes and post-school destinations of excluded pupils and those educated outside the school setting should be gathered and disseminated.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Rydym yn derbyn yr argymhelliad i'r graddau y bo'n berthnasol i ganlyniadau addysg disgyblion sydd wedi'u gwahardd a'r rheini a addysgir y tu allan i'r ysgol. Fodd bynnag, byddwn yn edrych ar sut mae gwella deilliannau a lleoliadau'r disgyblion hyn, a'u cyrchfannau, a sicrhau bod ein strwythurau atebolrwydd yn cynnwys y grŵp hwn.

**Goblygiadau Ariannol:** Bydd goblygiadau o ran yr adnoddau i gasglu a lledaenu'r data hyn, a fydd yn cael eu hystyried wrth ddatblygu'r argymhelliad hwn.

**Recommendation 22:** Welsh Government should clarify and harmonise

terminology used in policy and statistical reports relating to school exclusion and educational provision outside the school setting, for example, in relation to the terms, ‘individual tuition’/’home tuition’.

**Ymateb: Derbyn.**

Yn ystod blwyddyn ariannol 2014-15, mae Llywodraeth Cymru yn cynllunio i adnewyddu ac ailgyhoeddi'r canllawiau *Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion*. Wrth wneud hynny, byddwn yn ystyried y mater hwn ymhellach.

**Goblygiadau ariannol:** Dim goblygiadau ariannol ychwanegol.